OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 Rhif (Cy. )

# 2025 No. (W. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

## Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Sageston, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiadau) 2025

## The A477 Trunk Road (Sageston Roundabout, Pembrokeshire) (Derestriction) Order 2025

*Gwnaed* *3 Mawrth 2025*

*Yn dod i rym* *7 Mawrth 2025*

*Made* *3 March 2025*

*Coming into force* *7 March 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A477, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 82(2) ac adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Sageston, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiadau) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A477 Sanclêr i Ddoc Penfro.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A477 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(**2**).

### Title and Commencement

**1.** The title of this Order is the A477 Trunk Road (Sageston Roundabout, Pembrokeshire) (Derestriction) Order 2025 and this Order comes into force on 7 March 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order "the trunk road" ("y gefnffordd") means the A477 St Clears to Pembroke Dock trunk road.

(**1**) 1984 c. 27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2). By virtue of S.I.1999/672, Article 2 and Schedule 1 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) S.I. 1990/1656.

**Dileu Cyfyngiadau**

**3.** Bydd y darn o'r gefnffordd sy'n cynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Sageston yn Sageston yn Sir Benfro yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Mawrth 2025

T Barnes

*Tim Barnes*
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**Derestriction**

**3.** The length of the trunk road that comprises the Sageston Roundabout circulatory carriageway at Sageston in the County of Pembrokeshire shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 3 March 2025

T Barnes

*Tim Barnes*
Transport
Welsh Government